

# Canllaw i lawrlwytho ap COVID-19 y GIG ar ffôn Android

GIG CYMRU NHS WALES | Profi Olrhain Diogelu | Test Trace Protect

NHS Test and Trace




Ar ôl datgloi eich ffôn, chwiliwch am eicon yr ap "Play Store". Tapiwch arno i'w agor.





Tapiwch ar y bocs chwilio ar ben uchaf y sgrîn.





Teipiwch "NHS COVID-19". Cewch restr o ganlyniadau. Tapiwch ar y canlyniad "NHSCOVID-19".





Ar y sgrîn fe welwch fanylion Ap COVID-19 y GIG. Tapiwch ar y botwm "install".





Os nad yw hyn wedi gweithio, ewch i "Troubleshooting" ar **www.covid19.nhs.uk** i gael help.




Nawr mae'n amser troi Bluetooth ymlaen er mwyn i'r ap weithio'n iawn. I wneud hyn, ewch i "Settings" a tapiwch ar yr eicon.




Sgroliwch lawr i ffendio "connected devices" neu "Comnnections" (gan ddibynnu ar eich ffôn) a tapiwch arno.





Wedyn, sgroliwch i lawr y rhestr. Pan welwch naill ai "Connected preferences" neu "Bluetooth", tapiwch arno.

Roedd yr holl wybodaeth a delweddau yn y ddogfen hon yn gywir ar 24 Medi 2020. I gael rhagor o wybodaeth am Ap COVID-19 y GIG, ewch i **www.covid19.nhs.uk**


# Canllaw i lawrlwytho ap COVID-19 y GIG ar ffôn Android

GIG CYMRU NHS WALES | Profi Olrhain Diogelu | Test Trace Protect

NHS Test and Trace





Os ydych wedi tapio ar "Connected Preferences" yn y cam diwethaf, dylech ffendio "Bluetooth" nawr a thapio arno. Os ydych wedi tapio ar Bluetooth yn barod, fydd dim angen y cam hwn.




Trowch Bluetooth ymlaen trwy symud y botwm i'r dde. Bydd lliw'r botwm yn newid wrth i Bluetooth droi ymlaen.




Pwyswch ar eich botwm Home neu sweipiwch i fyny i fynd nôl i'ch sgrin cartref. Yno, fe welwch eich holl aps. tapiwch ar Ap COVID-19 y GIG i'w lansio.




Dilynwch y camau i orffen gosod yr ap i fyny. Bydd hyn yn cynnwys "Exposure Logging", i nodi pan fyddwch yn wynebu risg.




Pan fyddwch wedi gorffen gosod yr ap i fyny, bydd Ap COVID-19 y GIG yn barod ac yn gweithio.




Cewch gario 'mlaen i ddefnyddio'ch ffôn fel arfer ond cofiwch gadw'r ap yn rhedeg yn y cefndir a cadwch eich Bluetooth ymlaen drwy'r amser. Fydd yr ap ddim yn tracio eich lleoliad.